



Bae Caerdydd / Cardiff Bay  
Caerdydd / Cardiff  
CF99 1NA

5 Rhagfyr 2012

Annwyl Fadarn/Syr,

**Ymgynghoriad ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)**

Fel rhan o'i waith o drafod y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) yng Nghyfnod 1, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn galw am dystiolaeth ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil. I gynorthwyo ei waith, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn am y pwnc hwn.

**Beth yw Bil?**

Cyfraith ddrafft yw Bil. Ar ôl i'r Cynulliad ystyried a phasio Bil, ac ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, mae'n dod yn 'Ddeddf y Cynulliad'.

Mae pedwar cyfnod i'r broses o ystyried Bil. Yng Nghyfnod 1, bydd pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil (sy'n cynnwys cymryd dystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan rai sydd â diddordeb a chan randdeiliaid); ac mae Cyfnod 1 hefyd yn cynnwys cael cytundeb y Cynulliad i'r egwyddorion cyffredinol hynny.

**Beth y mae'r Bil hwn yn gobeithio ei gyflawni?**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn datgan:

"Nod y Bil yw galluogi Gweinidogion Cymru i adennill oddi wrth ddiogolledwr (sef person sy'n gwneud taliadau digolledu neu sy'n eu gwneud ar ei ran, i neu ar gyfer dioddefwr clefyd sy'n ymwneud ag asbestos), gostau penodol sy'n dod i ran y GIG yng Nghymru wrth ddarparu gofal a thriniaeth ar gyfer dioddefwr y clefyd sy'n ymwneud ag asbestos."

## **Beth yw rôl y Pwyllgor?**

Rôl y Pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i weithio o fewn y fframwaith a ganlyn:

I'w hystyried:

- i) yr angen am Fil i alluogi Llywodraeth Cymru, ar ran y GIG yng Nghymru, i adennill costau triniaeth a gofal meddygol a ddarperir i gleifion yng Nghymru sydd wedi datblygu clefyd sy'n ymwneud ag Asbestos (Mesothelioma, placiau plewrol, tewhau plewrol, canser yr ysgyfaint a chlefydau cysylltiedig eraill) ac wedi cael setliad neu ddyfarniad sifil mewn llys neu y tu allan i lys gan gyflogwr neu gorff arall;
- ii) a yw'r Bil yn cyflawni'r dibenion a bennwyd iddo;
- iii) prif ddarpariaethau'r Bil, ac a ydynt yn briodol i gyflawni ei ddibenion;
- iv) goblygiadau ariannol y Bil;
- v) unrhyw rwystrau posibl i roi'r prif ddarpariaethau ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- vi) a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- vii) barn rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio yn ôl y trefniadau newydd;
- viii) a yw'r Bil yn cynnwys cydbwysedd rhesymol rhwng y pwerau ar wyneb y Bil a'r pwerau a roddir drwy Reoliadau; a
- ix) barn rhanddeiliaid ynghylch y modd y daw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## **Gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymchwiliad**

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ei waith o graffu ar y Bil. Yn benodol, byddem yn croesawu eich sylwadau ar y cwestiynau a restrir yn Atodiad 1.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni at [PwyllgorIGC@cymru.gov.uk](mailto:PwyllgorIGC@cymru.gov.uk) a rhowch y teitl a ganlyn ar yr e-bost "Ymgynghoriad – y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)."

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Olga Lewis, Dirprwy Glerc  
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai'r dystiolaeth gyrraedd erbyn 10 Ionawr 2013. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi eich cyflwyniad, cadwch y canlynol mewn cof:

- dylai eich ymateb gyfeirio at y materion sydd gerbron y Pwyllgor. Gofynnwn ichi roi'r teitl a nodir uchod ar eich dystiolaeth;
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel rheol yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael yn gyhoeddus, ac efallai y cânt eu gweld a'u trafod gan Aelodau'r Cynulliad mewn cyfarfodydd pwyllgor. Os nad ydych am i'ch ymateb na'ch enw gael eu cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir wrth gyflwyno'r dystiolaeth;
- nodwch ai ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad yr ydych; a
- nodwch a fydddech yn barod i roi dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ac yn cynnal sesiynau dystiolaeth lafar yn ystod tymor y gwanwyn.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd ymatebion gan y rhai a enwyd ar y rhestr atodedig (gweler Atodiad 3). Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe baech yn gallu anfon copi o'r llythyr at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr hon, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad o bosibl. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

### **Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi dystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn dystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Steve George, Clerc y Pwyllgor, drwy ffonio 029 2089 8242, neu Olga Lewis, y Dirprwy Clerc, drwy ffonio 029 2089 8154.

Yn gywir

Mark Drakeford.

**Mark Drakeford AC**  
Cadeirydd

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

### Cyffredinol

1. A oes angen Bil i'w gwneud yn bosibl adennill costau triniaeth y GIG ar gyfer clefydau sy'n ymwneud ag asbestos yng Nghymru? Esboniwch eich ateb.
2. A ydych yn credu bod y Bil, fel y'i drafftwyd, yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y Memorandwm Esboniadol? Esboniwch eich ateb.
3. A yw adrannau'r Bil yn briodol o ran cyflwyno cyfundrefn i'w gwneud yn bosibl adennill costau triniaeth y GIG ar gyfer clefydau sy'n ymwneud ag asbestos yng Nghymru? Os nad ydynt, pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Bil?
4. Sut y bydd y Bil yn newid yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd, a pha effaith y bydd newidiadau o'r fath yn ei chael, os o gwbl?
5. Beth yw'r rhwystrau posibl i roi darpariaethau'r Bil ar waith (os ydynt yn bodoli), ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt?
6. A oes gennych farn ynghylch y modd y daw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

### Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

7. Beth yw eich barn am y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (hynny yw, offerynau statudol, gan gynnwys rheoliadau, gorchmynion a chyfarwyddiadau)?

Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried Adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl yn crynhoi'r pwerau a fydd yn cael eu dirprwyo i Weinidogion Cymru yn y Bil i wneud gorchmynion a rheoliadau ac yn y blaen.

### Goblygiadau ariannol

8. Beth yw eich barn am oblygiadau ariannol y Bil?

Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n cynnwys amcangyfrif o'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith.

## **Sylwadau eraill**

9. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am rannau penodol o'r Bil?

## Rhestr o ymgynghoreion

### **Awdurdodau Lleol**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
Cyngor Caerdydd  
Cyngor Sir Gâr  
Cyngor Sir Ceredigion  
Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Sir y Fflint  
Cyngor Gwynedd  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
Cyngor Sir Fynwy  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot  
Cyngor Dinas Casnewydd  
Cyngor Sir Penfro  
Cyngor Sir Powys  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Dinas a Sir Abertawe  
Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen  
Cyngor Bro Morgannwg  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

### **Y Sector Gwirfoddol**

Cynghrair Henoed Cymru  
Age Cymru  
ARC Cymru  
Llywodraeth Well i Bobl Hŷn  
Diverse Cymru  
Contact the Elderly  
Gofal Galar Cruse Cymru  
Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru  
Anabledd Cymru  
Grwp Eirioli a Chefnogi Byw'n Annibynnol Gwynedd (ILASGG)  
Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru  
Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched  
Cymdeithas y Cleifion  
Fforwm Pensiynwyr Cymru  
Rethink  
Pensiynwyr Cymru  
Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched (Cymru)

### **Grwpiau Cynghori**

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru  
Cyngor Gofal Cymru  
Cancer Research UK  
Cyngor ar Bopeth Cymru  
Cynghrair Pensiynwyr y Gwasanaeth Sifil  
Coalition on Charging Cymru  
Llais Defnyddwyr Cymru  
Diverse Cymru  
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  
National Voices  
Un Llais Cymru  
OPAN Ymchwil Heneiddio Cymru  
RNIB Cymru  
Action on Hearing Loss Cymru  
UNSAIN Cymru  
Cyngor Cymru i'r Deillion  
Cyngor Cymru i Bobl Fyddar

### **Cyrff Cynrychioliadol**

Asbestos Awareness and Support Cymru  
Fforwm Grwpiau Cymorth Dioddefwyr Asbestos  
Aslef  
Cymdeithas Yswirwyr Prydain  
Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol (Cymru)  
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd  
BMA Cymru  
Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint (Cymru)  
Clwb Busnes Caerdydd  
Clydeside Action on Asbestos  
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain  
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)  
Cydffederasiwn Cynghorau Iechyd Cymuned  
Undeb y Brigadau Tân (FBU)  
Cyfadran Iechyd y Cyhoedd  
Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant  
GMB  
Sefydliad y Cyfarwyddwyr (Cymru)  
Cymdeithas y Cyfreithwyr (Cymru)  
Macmillan yng Nghymru  
Marie Curie  
Mesothelioma UK  
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau  
(NASUWT) Cymru  
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) Cymru  
Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) Cymru  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth  
(RMT)  
Tenovus  
Undeb Adeiladu, Crefftiau Perthynol a Thechnegwyr (UCATT)



Unite Cymru  
Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru  
Confederasiwn GIG Cymru

### **Llywodraeth/Llywodraeth Leol**

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Llywodraeth Well i Bobl Hŷn  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Comisiynydd Plant Cymru  
Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru  
Un Llais Cymru  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### **Iechyd/Iechyd y Cyhoedd**

Cymdeithas Ymarferwyr Cymunedol ac Ymwelwyr Iechyd  
Cymdeithas Feddygol Prydain  
Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru  
Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru  
Y Cyngor Meddygol Cyffredinol yng Nghymru  
Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru  
Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru  
Fferylliaeth Gymunedol Cymru  
Comisiwn Iechyd Cymru  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Pwyllgorau Meddygol Lleol  
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol  
Coleg Brenhinol y Nyrsys, Cymru (RCN Cymru)  
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr  
Coleg Brenhinol y Llawfeddygon  
Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr  
Confederasiwn GIG Cymru  
Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a  
Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd

### **Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru**

Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg  
Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan  
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda  
Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf  
Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Ymddiriedolaeth GIG Felindre  
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

## **Gwasanaethau Tân**

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru